gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING




## MAE technoleg yn cael ei ddefnyddio i ddatgelu hen straeon llofruddiaeth a dirgelwch yn y dref.

Mae *Taith Hanes Tywyll* Cyngor Tref y Rhyl yn cael ei lansio Galan Gaeaf gyda thair ffilm fer yn rhoi cipolwg ar rai o straeon allweddol hanes y dref.

Mae Mymi yn y Cwpwrdd Kinmel Street, hanes un o'r dynion olaf ym Mhrydain i gael ei grogi a chyfrinach yr ysbryd yn Bodfor Street yn cael eu hadrodd fel rhan o daith hanes rithwir, barhaol.

Gellir gweld y ffilmiau ar ffôn clyfar yn y strydoedd lle digwyddodd yr hanesion gwreiddiol, a dyma'r gyntaf mewn cyfres i'w datgelu gyda llwybrau eraill i ddod, yn canobwyntio ar wynebau enwog a hanes chwaraeon y Rhyl.

Agorodd Clwb Hanes y Rhyl ei archifau i helpu'r prosiect, gyda thîm o Barnardo's yn gweithio gyda Cherddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE i lunio'r cynnwys a'r byrddau stori.

Meddai Maer y Rhyl y Cynghorydd Alan James: "Mae hanes y Rhyl yn un cyfoethog – o lofruddiaethau a digwyddiadau rhyfedd i wynebau enwog, mae straeon i'w hadrodd ym mhob man. Mae'r rhain yn rhan o fywyd y Rhyl ac, yn raddol, byddwn yn eu hadrodd mewn ffordd newydd gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

"Mae'r daith *Hanes Tywyll* wedi bod yn brosiect sy'n cynnwys y clwb hanes, ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc trwy Barnardos' sy'n rhoi cyfle i ddysgu am waith ymchwil, gwneud a datblygu ffilmiau. Mae hyn wedi bod gymaint am gefnogi grwpiau lleol a darparu adnoddau addysgol ag yr oedd am warchod hanes lleol. Mae *Hanes Tywyll* yn rhywbeth newydd i'w ddarganfod ar Galan Gaeaf eleni, ond bydd y ffilmiau yno o hyd."

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

Bydd pobl yn medru gweld y ffilmiau trwy gael taflen o Ganolfan Groeso'r Rhyl, dilyn y map a sganio'r codau QR. Yn y pen draw, bydd y ffilmiau hefyd ar gael yn llawn ar wefan y cyngor tref a'r clwb hanes.

Meddai Ruth Pritchard o Glwb Hanes y Rhyl: "Mae'r Rhyl yn llawn straeon chwedlonol, megis treial llofruddiaeth Hanratty, sydd wedi bod yn destun llawer o drafodaeth, dadl a heriau cyfreithiol ac ysbryd Bodfor Street y credir iddo gael ei weld lawer o weithiau dros y blynyddoedd.

"Trwy droi'r straeon hyn yn ffilmiau, mae hanes ar gael i bobl ac yn ddiddorol, gan gadw chwedlau, mythau a chwestiynau o gyfiawnder yn fyw."

Yn achos y Mymi yn y Cwpwrdd, canfuwyd gweddillion Frances Alice Knight wedi eu cloi mewn tŷ yn Kinmel, gan wneud y landlordes 65 oed yn rhywun a ddrwgdybiwyd ar unwaith. Mae'r *Hanes Tywyll* yn delio â'r darganfyddiad hwnnw a'r hyn a ddigwyddodd nesaf mewn stori a achosodd benawdau ledled y byd.

Meddai Neil Dunsire o Gerddoriaeth a Ffilm Chymunedol TAPE: "Mae rhai o'r straeon yn mynd yn ôl ddegawdau ond, gan ddefnyddio technoleg newydd, rydym yn eu hailadrodd ac yn eu gwneud yn hygyrch i genedlaethau heddiw a'r dyfodol. Gan weithio gyda Barnardo's yn y Rhyl, cawsom gyfle i roi hyfforddiant i bobl ifanc y dref hefyd, gan wneud y prosiect newydd, os braidd yn arswydus, hwn yn un y mae'r gymuned leol ehangach wedi medru manteisio arno."

**Diwedd**